National Institute for Health and Clinical Excellence

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2006

# Ceulad plasma drwy heliwm laparosgopig i drin endometriosis

## Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y driniaeth, ac i'r cyhoedd

Gwybodaeth am Arweiniad
Ymyriad NICE 171

## Gwybodaeth archebu

Gallwch lwytho'r dogfennau canlynol o www.nice.org.uk/IPG171

- y llyfryn hwn
- yr arweiniad llawn ar y driniaeth hon.

I gael copïau o'r arweiniad llawn neu'r wybodaeth i'r cyhoedd wedi eu hargraffu, ffoniwch Linell Ymateb y GIG ar 0870 1555 455 gan ddyfynnu:

- N1033 (arweiniad llawn)
- N1034 (gwybodaeth i'r cyhoedd).

**National Institute for**
**Health and Clinical Excellence**
MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

www.nice.org.uk

ISBN 1-84629-208-5

© National Institute for Health and Clinical Excellence, May 2006. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of the Institute.

## Cynnwys

| | |
|---|---|
| **Ynglŷn â'r wybodaeth hon** | **4** |
| **Ynglŷn â'r driniaeth** | **5** |
| **Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio** | **6** |
| **Risgiau a phroblemau posibl gyda'r driniaeth** | **7** |
| **Beth y mae NICE wedi'i benderfynu?** | **8** |
| **Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi** | **9** |
| **Gwybodaeth bellach** | **10** |

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) yw'r sefydliad annibynnol sy'n gyfrifol am ddarparu arweiniad cenedlaethol ar hybu iechyd da ac atal a thrin iechyd gwael. Un o rolau NICE yw cynhyrchu arweiniad (argymhellion) ar p'un a yw ymyriadau yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i'w defnyddio fel triniaeth arferol yn y GIG yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Mae'r wybodaeth hon yn disgrifio'r arweiniad a gyhoeddodd NICE ar driniaeth a elwir yn geulad plasma drwy heliwm laparosgopig. Nid yw'n ddisgrifiad cyflawn o'r hyn mae'r driniaeth yn ei olygu - dylai tîm gofal iechyd y claf ei disgrifio yn fanwl.

Mae NICE wedi edrych ar ba un a yw ceulad plasma drwy heliwm laparosgopig yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i'w ddefnyddio fel triniaeth arferol i drin endometriosis.

Er mwyn llunio'r arweiniad hwn, mae NICE wedi:

- edrych ar ganlyniadau astudiaethau o ba mor ddiogel yw ceulad plasma drwy heliwm laparosgopig a pha mor dda y mae'n gweithio
- gofyn am farn arbenigwyr
- gofyn am farn sefydliadau sy'n cynrychioli gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd a'r cleifion a'r gofalwyr yr effeithir arnynt gan yr arweiniad hwn.

Mae'r arweiniad hwn yn disodli'r arweiniad blaenorol ar geulad plasma drwy heliwm laparosgopig i drin endometriosis (sef arweiniad ymyriad rhif 54). Er mwyn llunio'r arweiniad hwn, cynhaliodd NICE adolygiad o'r holl astudiaethau a gyhoeddwyd am geulad plasma drwy heliwm laparosgopig i drin endometriosis.

Mae'r arweiniad hwn yn rhan o'r gwaith y mae NICE yn ei wneud ar 'ymyriadau' (gweler 'Gwybodaeth bellach' ar dudalen 10).

## Ynglŷn â'r driniaeth

Yr endometriwm yw'r term meddygol ar gyfer leinin mewnol y groth. Mae gan ferched sydd ag endometriosis ddarnau o endometriwm y tu allan i'r groth. Mae'r darnau hyn yn aml yng ngwaelod yr abdomen, ond gallant fod mewn rhannau eraill o'r corff. Er nad oes gan lawer o ferched sydd ag endometriosis unrhyw symptomau, mae rhai yn dioddef poen yn yr abdomen, poen wrth gael rhyw (a elwir yn ddysparewnia), misglwyfau poenus (dysmenorrhoea) neu anffrwythlondeb.

Gellir trin y rhan fwyaf o ferched sydd ag endometriosis gyda chyffuriau lleddfu poen a thriniaethau hormonau. Efallai y cynigir llawdriniaeth i gleifion nad ydynt yn gwella. Fel arfer, mae hyn yn cynnwys defnyddio nodwydd a wresogir yn drydanol neu laser i ddinistrio'r darnau. Efallai y cynigir llawdriniaeth i dynnu eu croth (a'u hofarïau weithiau) i gleifion sydd â symptomau difrifol iawn. Gelwir hyn yn hysterectomi.

Mae ceulad plasma drwy heliwm laparosgopig yn golygu rhoi telesgop hyblyg main iawn (laparosgop) drwy doriad bach yn yr abdomen. Defnyddir y teclyn hwn i gyfeirio paladr tenau o nwy heliwm arbennig ar y darnau o endometriwm sy'n peri problemau. Mae'r paladr hwn yn dinistrio'r darnau hyn.

## Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio

### Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Asesodd astudiaethau gwahanol symptomau ar ôl y driniaeth mewn ffyrdd gwahanol, a'i gwnaeth yn anodd eu cymharu. Cofnododd tair astudiaeth fod y symptomau wedi gwella mewn 49%, 72% ac 81% o ferched, tri mis ar ôl y driniaeth. Mewn astudiaeth arall, roedd gan 38% o'r cleifion (sef 5 allan o 13) a gafodd y driniaeth symptomau o hyd 14 mis ar ôl y driniaeth.

Cafwyd adroddiad ar effaith y driniaeth hon ar ffrwythlondeb merched mewn un astudiaeth o 50 o ferched. Roedd yr astudiaeth hon yn cynnwys naw merch a oedd yn anffrwythlon ar ddechrau'r astudiaeth a 15 o ferched a oedd yn anffrwythlon a chanddynt symptomau endometriosis hefyd. Ar y cyfan, bu i 44% (4/9) o'r merched a oedd yn anffrwythlon feichiogi o fewn 6 mis o gael y driniaeth, a bu i 20% (3/15) o'r merched a oedd yn anffrwythlon a chanddynt symptomau endometriosis feichiogi o fewn 6 mis.

Yn un o'r astudiaethau, ni fu'n rhaid newid yr un o'r 250 o driniaethau i lawdriniaeth agored, ac ni fu'n rhaid aildderbyn unrhyw un ar ôl 3 mis. Mewn astudiaeth arall, roedd angen i 16% (5/31) o gleifion gael y driniaeth eto; cofnododd yr astudiaeth hon hefyd y cymerodd cleifion 12 diwrnod ar gyfartaledd i ddychwelyd i weithgareddau dyddiol arferol. Ni chynhaliwyd unrhyw waith dilynol hirdymor o gleifion am gyfnod hwy na 6 mis yn yr astudiaethau a gyhoeddwyd yr edrychwyd arnynt.

### Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Nododd yr arbenigwyr y gallai'r driniaeth achosi llai o losgi ochrol (llosgi'r meinwe o amgylch y dyddodyn endometriaidd) na'r dechneg diathermedd, ac y gallai ganiatáu i gleifion gael eu trin fel cleifion dydd.

## Risgiau a phroblemau posibl gyda'r driniaeth

### Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Ni chofnodwyd unrhyw sgil-effeithiau na phroblemau a oedd yn gysylltiedig â'r driniaeth mewn tair astudiaeth â chyfanswm o 130 o ferched. Mewn astudiaeth arall, cysylltwyd â 250 o ferched dri mis ar ôl y driniaeth ac ni chanfuwyd unrhyw broblemau mawr.

### Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Dywedodd yr arbenigwyr y gallai problemau gynnwys niwed i feinwe arferol, anaf i'r perfedd, gwaedlif, haint ac, o bosibl, emboleiddiad heliwm (lle mae'r heliwm yn achosi rhwystrau yn y pibellau waed).

## Beth y mae NICE wedi'i benderfynu?

Mae NICE wedi penderfynu, os yw meddyg am gynnal ceulad plasma drwy heliwm laparosgopig, dylai sicrhau bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a bod ansicrwydd o hyd am ba mor dda y mae'n gweithio. Dylid gwneud trefniadau arbennig i sicrhau mai dim ond ar ôl cael y drafodaeth hon y bydd y claf yn cytuno (rhoi caniatâd) i gael y driniaeth hon.

Mae NICE wedi nodi y dylai clinigwyr sy'n cynnal ceulad plasma drwy heliwm laparosgopig gael eu hyfforddi'n ddigonol cyn ymgymryd â'r driniaeth.

Mae NICE wedi dweud y bydd gwybodaeth bellach ar ba mor dda y mae ceulad plasma drwy heliwm laparosgopig yn gweithio yn ddefnyddiol. Efallai y bydd NICE yn ailystyried y driniaeth hon os daw rhagor o wybodaeth i'r amlwg.

## Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi

Efallai bod eich meddyg wedi cynnig ceulad plasma drwy heliwm laparosgopig i drin endometriosis i chi. Mae NICE wedi ystyried y driniaeth hon am ei bod yn gymharol newydd. Mae NICE wedi penderfynu bod ansicrwydd am fanteision a risgiau ceulad plasma drwy heliwm laparosgopig y dylech eu deall cyn i chi gytuno i gael y driniaeth. Dylai eich meddyg drafod y manteision a'r risgiau gyda chi. Efallai bod rhai o'r rhain wedi'u disgrifio uchod.

## Gwybodaeth bellach

Mae gennych hawl i gael yr holl wybodaeth ac i gymryd rhan yn y penderfyniad a wneir am y driniaeth a gewch. Efallai y byddwch am drafod yr arweiniad hwn gyda'r meddygon a'r nyrsys sy'n gofalu amdanoch.

Mae gwybodaeth bellach am NICE, y Rhaglen Ymyriadau a'r arweiniad llawn ar geulad plasma drwy heliwm laparosgopig a gyhoeddwyd i'r GIG ar wefan NICE (www.nice.org.uk). Mae'r dystiolaeth a ystyriodd NICE wrth ddatblygu'r arweiniad hwn hefyd ar gael o wefan NICE.

Os oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, gallwch gael mwy o wybodaeth am endometriosis ar wefan Galw Iechyd Cymru (www.nhsdirect.wales.nhs.uk). Gallwch ffonio Galw Iechyd Cymru hefyd ar 0845 46 47.

**National Institute for**
**Health and Clinical Excellence**
MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

www.nice.org.uk

N1034 1P Mai 06

ISBN 1-84629-208-5